# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

**SC(3)-03-10 (p1): 21 Ionawr 2010**

## Mynediad at Ddyfroedd Yng Nghymru i Ddibenion Hamdden

### Papur tystiolaeth a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Pwyllgor Cynaliadwyedd Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Cefndir

1. Mae'r Pwyllgor Cynaliadwyedd ar hyn o bryd yn cynnal ymholiad i fynediad at ddyfroedd mewndirol yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn nodi barn Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y mater pwysig hwn a hefyd yn amlinellu'r agwedd o ran polisi a'r camau cysylltiedig a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn gwella cyfleoedd cyfredol i'r cyhoedd fwynhau hamddena iach ar ddyfrffyrdd helaeth Cymru, a hynny ar sail gyfrifol a chynaliadwy.

### Y sefyllfa bresennol o ran mynediad at ddyfroedd yng Nghymru

2. Mae gan Gymru adnoddau dwr helaeth, gan gynnwys dros 3,000 o filltiroedd o afonydd, dros 100 milltir o gamlesi a thros 600 o lynnoedd a chronfeydd dwr yn ogystal â thros 700 milltir o arfordir, gan gynnwys rhai aberoedd pwysig (Dyfrdwy, Hafren, Conwy ayb). Defnyddir y dyfroedd ar gyfer ystod o ddibenion hamdden a chwaraeon, gan gynnwys cerdded hyd ochrau afonydd a chamlesi, pysgota â gwialen, nofio, canwio a gweithgaredd gyda chychod. Yn ogystal â chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gan y cyhoedd yng Nghymru, mae hamddena yn gysylltiedig â dwr hefyd yn bwysig iawn i ymwelwyr â'r wlad hon. Er enghraifft, mae Croeso Cymru'n amcangyfrif fod gwyliau chwaraeon dwr yng Nghymru'n gyfrifol am 880,000 o deithiau twristiaeth a £160 miliwn o wariant gan dwristiaid yn flynyddol. Amcangyfrifir fod hyd at £120 miliwn o'r gwariant hwn (Adroddiad Drew) yn mynd ar deithiau pysgota gan ymwelwyr i Gymru (pysgota mewndirol ac yn y môr).

3. Hwylio, canwio a physgota â gwialen yw'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd o ran chwaraeon dwr yn yr awyr agored, ac mae gan Gymru rai cyfleusterau neu ganolfannau pwysig sy'n darparu ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, er bod pysgota â gwialen yn digwydd mewn sawl lleoliad ar draws Cymru, nid yw gweithgareddau dwr eraill at ddibenion hamdden yn gyffredin iawn hyd yma ar ddyfroedd helaeth Cymru, ac eithrio canwio. .

### Cyfraddau cyfranogi ac arolygon

4. Mae natur cyfranogaeth mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yng Nghymru'n amrywio. Mae gwybodaeth o arolwg gan Gyngor Chwaraeon Cymru (2004/5) yn seiliedig ar 22,000 o bobl yn datgelu fod 45% o'r boblogaeth sy'n oedolion yng Nghymru'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Mae cerdded yn cyfrannu'n sylweddol at y ffigur hwn. Mae'r gyfranogaeth mewn hamddena seiliedig ar ddwr yn weddol isel (2%). Mae gwybodaeth gan gyrff llywodraethu'r gwahanol chwaraeon dwr yn rhoi darlun cymysg o ran y galw posibl yn y dyfodol, gyda pheth twf yn cael ei awgrymu mewn canwio, hwylio a syrffio, gyda diddordeb mewn rhwyfo'n cynyddu'n weddol gyflym. Mae canlyniadau Arolwg Hamdden Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2008 (yn cynnwys oddeutu 6,000 o bobl) hefyd yn nodi y byddai oddeutu 10% o'r rhai a holwyd yn hoffi gwneud mwy o nofio yn yr awyr agored a hefyd mwy o chwaraeon dwr sydd ddim yn defnyddio peiriannau. Mae'r ffigurau hyn yn awgrymu fod gan Gymru ddigon o adnoddau dwr i gwrdd â'r galw cyfredol â'r galw tebygol yn y dyfodol yng nghyswllt y rhan fwyaf o weithgareddau chwaraeon dwr. Ar rhan ganweirio, cafodd tua 75,000 o drwyddedau eu rhoi yn 2009, codiad o 6% ar y flwyddyn cynt.

5. Yn wir, ceir tystiolaeth dda i ddangos fod adnoddau dwr Cymru'n adnodd naturiol ar gyfer hamddena sy'n cael ei danddefnyddio – er enghraifft o wybodaeth a gynhwysir yn y Cynllun Strategol ar Hamddena yn Gysylltiedig â Dwr yng Nghymru, y cyfeirir ato isod.

### Ystyriaethau amgylcheddol a chodau/cytundebau mynediad

6. Gall niwed ddigwydd i'r amgylchedd os cynhelir gweithgareddau chwaraeon dwr ar safleoedd amgylcheddol hynod sensitif, heb reolaeth effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw Arfordir Sir Benfro sydd ag amrywiaeth gyfoethog o fywyd gwyllt a chynefinoedd, llawer ohonynt yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth. Ar yr un pryd, y mae ystod eang iawn o weithgareddau hamdden a masnachol yn digwydd o gwmpas yr arfordir hwn. I reoli gwrthdaro posibl a chynorthwyo i osgoi aflonyddu ar fywyd gwyllt a phroblemau eraill, sefydlwyd Côd Morol Sir Benfro gan Awdurdod y Parc a'r Cyngor Sir, a chytunwyd arno gan yr holl brif weithredwyr teithiau cychod pleser, clybiau deifio, caiacio yn y môr a chlybiau gweithgareddau morol eraill ayb. Ym marn Llywodraeth Cynulliad Cymru, gallai'r un math o gyfyngiadau ar fynediad ac amseriad gweithgareddau - i osgoi gwrthdaro â defnyddwyr eraill ac i warchod yr amgylchedd – gael eu cynnwys mewn cytundebau mynediad gwirfoddol ar afonydd mewndirol er mwyn cynorthwyo gwahanol ddefnyddwyr dwr ar gyfer hamddena i gael defnydd / mynediad ehangach.

7. Mae hyn yn bodoli eisoes yn achos trefniadau mynediad a sefydlwyd gan Sefydliad Afon Gwy ac Afon Wysg ar y ddwy afon hyn. Cred Llywodraeth y Cynulliad y gallai trefniadau tebyg helpu i atal difrod posibl gan weithgareddau dwr eraill at ddibenion hamdden i fannau silio pysgod a safleoedd dwr eraill sy'n amgylcheddol sensitif. Yn wir, gall hamdden cysylltiedig â dwr a reolir yn dda gynorthwyo i sicrhau gwelliannau amgylcheddol pwysig. Er enghraifft, mae mudiadau genweirio, tirfeddianwyr a gweithredwyr yn y sector preifat wedi gweithio mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd i gyflwyno cynnydd sylweddol yn ansawdd ac argaeledd cynefinoedd afonol i bysgod hela a physgod bras yng Nghymru.

## Y sefyllfa gyfreithiol o ran mynediad at ddyfroedd yng Nghymru

8. Ceir hawl mynediad cyffredinol at ddyfroedd arfordirol a dyfroedd llanw/aberoedd yng Nghymru ar gyfer mordwyo a physgota – ac yn gyffredinol caiff yr hawl hwn ei ddefnyddio'n dda i ddibenion hwylio, defnyddio cwch, canwio a physgota â gwialen. Fodd bynnag, nid oes hawl mynediad cyffredinol i'r cyhoedd at ddyfroedd mewndirol. Yn yr achos hwn, mae hawliau mynediad yn gyffredinol wedi'u cynnwys yng nghyfraith gwlad, ac fel arfer fe'u breiniwyd ym mherchnogion y glannau h.y. y rhai sy'n berchnogion y tir hyd ochrau'r afon/glannau'r llyn. Nid mater syml fyddai newid y sefyllfa hon er mwyn rhoi hawl mynediad cyfreithiol i'r cyhoedd i holl ddyfroedd Cymru. Heblaw hyn, nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru'r pwerau cyfreithiol ar hyn o bryd i gyflwyno hawl mynediad cyhoeddus o'r fath. Y mae hyn oherwydd nad yw Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 – sy'n darparu manylion cymhwysedd deddfwriaethol cyffredinol y Cynulliad – yn cynnwys unrhyw faterion a fyddai'n galluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ar fynediad at ddwr. Felly byddai'n rhaid i'r Cynulliad sicrhau Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol i osod materion priodol yn Atodlen 5 cyn y gallai ddwyn ymlaen Fesur yn y Cynulliad i greu hawliau mynediad newydd mewn perthynas â dwr.

9. Mae'n rhaid i bob pysgotwr, beth bynnag y bo'r hawliau ar lannau'r afon, gofrestru a phrynu trwyddedau er mwyn cael pysgota. Mae'r pysgotwyr traddodiadol yn cael mynediad at ddyfroedd ac maent yn hyrwyddo hunaniaeth a threftadaeth ddiwylliannol Cymru drwy arfer dulliau pysgota hanesyddol mewn ffordd sydd bron yn unigryw ee defnyddio cwryglau a dulliau pysgota traddodiadol eraill. Rheolir y gweithgaredd hwn drwy ddefnyddio Gorchymyn Cyfyngu ar Rwydi, sy'n cyfyngu ar bysgota ac yn ei gwneud hi'n ofynnol i Rwydwyr dalu ffi i Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn cael trwyddedau priodol i'w galluogi i barhau i bysgota.

10. Bydd y refeniw a gesglir drwy reoli gweithgareddau rhwydwyr a physgota â gwialen yn cyfrannu at reoli, diogelu a gwella pysgodfeydd a dyfrffyrdd mewndirol.

## Y sefyllfa yn yr Alban

10. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi dilyn gyda diddordeb y datblygiadau yn yr Alban ar fater mynediad at ddwr, gyda chyflwyniad Deddf Diwygio Tir (Yr Alban) 2003 yno, sy'n darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus i gefn gwlad yn ogystal ag i ddyfroedd mewndirol. Cefnogwyd y Ddeddf gan God Mynediad Awyr Agored statudol sy'n egluro hawliau'r cyhoedd a hawliau rheolwyr tir. Y mae'r Ddeddf a'r Cod yn seiliedig ar dair egwyddor allweddol – parch tuag at fuddiannau pobl eraill; gofal am yr amgylchedd; a chyfrifoldeb personol (o ystyried nad yw mynediad i gefn gwlad nac at ddwr yn gwbl rydd o beryglon). Er yr ymddengys fod y profiad yn yr Alban hyd yma'n dangos nad oes ond ychydig iawn o broblemau'n codi o'r ddeddfwriaeth, mae gan Gymru lai o afonydd mawr a nifer o afonydd llai nad ydynt, o bosibl, yn addas ar gyfer ystod eang o weithgareddau hamddena cysylltiedig â dwr oherwydd eu llif isel am gyfran helaeth o'r flwyddyn. Yn ogystal, lle cynhelir nifer o weithgareddau seiliedig ar ddwr ar yr afonydd mwy yn yr Alban, er enghraifft, yr Afonydd Spey a Tay, sefydlwyd cytundebau mynediad a/neu gytundebau cylchfaeo, neu mae rhai dan ystyriaeth, i helpu rheoli gwrthdrawiadau posibl rhwng y gwahanol grwpiau defnyddwyr.

## Dull gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru

11. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n awyddus i sicrhau mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd ac ymwelwyr â Chymru fwynhau adnoddau dwr helaeth Cymru ar sail gyfrifol, ddiogel a chynaliadwy. Mae hyn yn gwbl unol â'r ymrwymiad yn ein blaen agenda Cymru'n Un i feithrin mwy o ymdeimlad o berchnogaeth gyhoeddus yng nghefn gwlad Cymru, mannau gwyrdd mewn trefi, ac ar yr arfordir. Rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn ar y cyd â phartneriaid allweddol eraill yng Nghymru, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ogystal â chynrychiolwyr grwpiau defnyddwyr hamdden. Mae Llywodraeth y Cynulliad o'r farn y gall cynyddu a gwella mynediad at adnoddau dwr helaeth Cymru ddwyn nifer o fanteision cadarnhaol yn ei sgil, nid yn lleiaf yn nhermau budd economaidd i gymunedau lleol, annog ffordd fwy gweithgar o fyw/hamddena iach, ac yn nhermau cynhwysiant cymdeithasol. Ar yr un pryd, rhaid cofio fod goblygiadau iechyd a diogelwch cynhenid yng nghyswllt mynediad at yr amgylchedd dwr.

12. Yng ngoleuni'r ffactorau hyn, yr ydym wedi canolbwyntio'n hymdrechion ar ystod o gamau ymarferol i gefnogi gwella mynediad cyhoeddus at yr amgylchedd dwr yng Nghymru. Yn aml yn y cyfryngau, portreadir yr agenda hon fel pe na bai'n ymwneud â dim ond pysgotwyr a chanwwyr – ond y mae dull gweithredu Llywodraeth y Cynulliad yn seiliedig ar wella mynediad i bawb, yn hytrach na dim ond un grwp penodol o ddefnyddwyr.

13. Mae camau/mesurau allweddol Llywodraeth y Cynulliad ar yr agenda mynediad at ddwr hyd yma fel a ganlyn:

a. cyllid yn 2007/8 ar gyfer cyfres o brosiectau peilot mynediad at ddwr

Bu i Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Llywodraeth y Cynulliad ariannu 5 prosiect peilot ar wahanol fathau o ddyfrffyrdd yng Nghymru (afonydd, camlas a chronfa ddwr) i edrych ar faterion mynediad, rheolaeth a materion eraill cysylltiedig. Yn gyffredinol, bu'r cynlluniau peilot yn llwyddiannus o ran yr amcanion a osodwyd ar eu cyfer. Yr oedd un o'r prosiectau'n ymwneud â datblygu cytundebau mynediad gwirfoddol newydd (ar gyfer canwio a grwpiau defnyddwyr eraill) ar yr Afonydd Gwy a Wysg (gan gynnwys darparu mannau newydd/gwell i fynd i mewn ac allan).

b. datblygu Cynllun Strategol ar Hamddena Cysylltiedig â Dwr. Comisiynwyd Asiantaeth Amgylchedd Cymru gan Lywodraeth y Cynulliad i gynhyrchu'r cynllun hwn ac fe'i cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008. Mae'r cynllun yn adolygu'r ddarpariaeth bresennol yng Nghymru ar gyfer hamddena seiliedig ar ddwr ac ystod o gyfleoedd posibl a lleoliadau ar gyfer mynediad newydd/gwell at ddwr. Mae'r prif faterion a nodwyd yn y cynllun strategol ar gyfer gweithredu bellach yn derbyn sylw drwy Gynllun Gweithredu (ac yn cynnwys Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid allweddol : Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, y Cyngor Chwaraeon a Dyfrffyrdd Prydain).

c. cyflwyno grant newydd ar gyfer mynediad at ddwr – Cronfa Sblash

Dyfeisiwyd a chyflwynwyd y grant newydd hwn gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2008. Mae'r Gronfa Sblash yn profi'n boblogaidd iawn ac mae'n darparu £400,000 y flwyddyn i gefnogi prosiectau ymarferol ledled Cymru sy'n sicrhau gwell mynediad cyhoeddus at ddyfrffyrdd. Cefnogwyd prosiectau ar ystod o safleoedd, gan gynnwys gwella cyfleusterau ar gyfer mynediad gyda chanw ar Gamlas Trefaldwyn; cyfleusterau mynediad i enweirwyr a'r anabl ym Mhwll y Waun, Blaenau Gwent; llyn newydd ar gyfer chwaraeon dwr yn Llandysul yng Ngorllewin Cymru; a chanolfan chwaraeon dwr newydd ym Mhorthcawl. Ceir rhestr lawn o'r prosiectau a ariannwyd hyd yma dan Sblash yn Atodiad A.

d. hyrwyddo cytundebau mynediad gwirfoddol

Gan adeiladu ar gytundebau mynediad newydd ar yr Afonydd Gwy a Wysg, bu Llywodraeth y Cynulliad wrthi'n annog eraill i ystyried gweithredu cytundebau tebyg ar afonydd eraill yng Nghymru – er enghraifft mewn gohebiaeth gydag amrywiol grwpiau pysgota â gwialen. Mae'r gronfa Sblash hefyd wedi cefnogi astudiaeth ddichonoldeb ar fynediad i ganwod ar ran o'r Afon Ogwr.

e. sefydlu Bwrdd Crwn ar fynediad at ddwr

Gan gydnabod y gallai buddiannau wrthdaro mewn perthynas â mynediad at ddwr, bu Jane Davidson AC, fel Gweinidog Llywodraeth y Cynulliad sy'n arwain polisi ar y mater hwn, yn ceisio adeiladu consensws rhwng buddiannau pysgota â gwialen a chanwio, gan eu hannog i gydweithio ar lefel leol i sicrhau mwy o gytundebau gwirfoddol ar gyfer mynediad at afonydd, tebyg i'r rhai ar y Gwy a'r Wysg. Fel rhan o hyn, mae hi wedi sefydlu grwp 'Bwrdd Crwn' o fuddiannau gweithgareddau dwr. Bydd cyfarfod nesaf y grwp ar 18 Ionawr 2010.

f. twristiaeth sy'n gysylltiedig â dwr – datblygu potensial Cymru

Mae Croeso Cymru'n gweithio i sicrhau cyfleoedd i ymwelwyr gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau seiliedig ar ddwr. Mae gweithgareddau penodol yn cynnwys rheoli gwefan 'Fishing Wales' sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer twristiaeth pysgota â gwialen yng Nghymru, a hyrwyddo twristiaeth hamdden ar y môr drwy gwmni Wales Watersports International, sy'n mynd ati'n ddyfal i farchnata Cymru fel lleoliad chwaraeon dwr. Hefyd yn ddiweddar, y mae wedi gorffen llunio Cynllun Gweithredu Twristiaeth Chwaraeon Padlo newydd ar gyfer 2009-12, a luniwyd i helpu i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i ganwwyr (yn canolbwyntio ar ddyfroedd arfordirol a dyfroedd eraill lle ceir hawl mynediad clir neu fod cytundeb mynediad yn bodoli).

g. datblygu chwaraeon dwr yng Nghymru

Mae gwaith Cyngor Chwaraeon Cymru â chysylltiad agos ag f. uchod o ran hyrwyddo mwy o gyfranogaeth gan y cyhoedd mewn chwaraeon dwr yng Nghymru a rheoli cyfleusterau a chanolfannau chwaraeon dwr allweddol yng Nghymru megis Plas Menai a Chanolfan Tryweryn yng Ngogledd Cymru, a'i gysylltiaid â'r ganolfan dwr gwyllt ym Mae Caerdydd. Un o'r camau yn Nghynllun Gweithredu Creu Cymru Egnïol yw datblygu fforwm gweithgaredd awyr agored gyda chyswllt â'r rhwydwaith gweithgaredd corfforol er mwyn cydlynu cyfleoedd ar gyfer hamddena yn yr awyr agored yn well a rhannu arfer da.

h. datblygu pysgodfeydd mewndirol

Ystyrir Cymru'n lleoliad rhagorol ar gyfer pysgota â gwialen, ac yn benodol ar gyfer brithyll y môr. Mae Uned Pysgodfeydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio'n agos gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i ddatblygu pysgodfeydd cynaliadwy yng Nghymru. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn derbyn £4.1 miliwn y flwyddyn o gymorth grant, gan gynnwys y Gronfa Pysgodfeydd Cynaliadwy (£800,000) i gyflwyno agweddau allweddol ar Strategaeth Pysgodfeydd Cymru, ac un o'r rhain yw cynyddu cyfranogaeth mewn pysgota â gwialen er mwyn dwyn buddion cymdeithasol-economaidd i'r gymuned yn ehangach. Yn ogystal, y mae'r Asiantaeth wedi gwerthu nifer cynyddol o drwyddedau gwialen yng Nghymru, tua 75,000 yn 2009, gan gynhyrchu refeniw ychwanegol (tua £1.5 miliwn yn 2009) a gaiff ei ail-fuddsoddi yn y gwaith o reoli pysgodfeydd.

i. pysgota a threftadaeth

Mae'r Rhwydwyr Traddodiadol yn mwynhau mynediad ac yn hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a'i threftadaeth drwy ymarfer dulliau pysgota hanesyddol mewn ffordd sydd bron yn unigryw – h.y. gan ddefnyddio cwryglau a dulliau pysgota traddodiadol eraill.

j. Cronfeydd Cydgyfeiriant yr UE a chyfleusterau seiliedig ar ddwr

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru ac eraill) i helpu i sicrhau y cefnogir prosiectau seiliedig ar ddwr dan raglenni perthnasol sy'n derbyn cyllid drwy Gronfeydd Cydgyfeiriant yr UE. Mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau a ddatblygir dan raglenni Cymunedau a Natur, Twristiaeth Arfordirol, Twristiaeth Gynaliadwy a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

## Casgliadau/ y camau nesaf

14. Fel y nodir uchod, mae sawl cam gweithredol ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid allweddol i helpu i sicrhau gwell cyfleoedd i'r cyhoedd fwynhau adnoddau dwr helaeth Cymru ar gyfer hamddena iach. Barn Llywodraeth y Cynulliad fodd bynnag yw fod llawer mwy o le i sefydlu cytundebau mynediad gwirfoddol ar lawer o afonydd a llynnoedd Cymru. Byddem yn croesawu barn y Pwyllgor ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol o drefnu hyn, a hefyd ar y mater cysylltiedig, sef sut ac ymhle y gellid defnyddio codau ymarfer yn fwyaf defnyddiol yn y dyfodol fel rhan o'r agenda hon.

Ionawr 2010

Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Elin Jones AS, Y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Alun Ffred Jones AC, y Gweinidog dros Dreftadaeth